

## LLEISIAU O LAWYR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

Ffatri Morris Motors, Felinfoel, Llanelli (1940 neu 1944 i tua 1981)

**Cyfwelai:** VSW014 Gwen Eira Evans

**Dyddiad:** 20.12.13

**Cyfwelydd:** Susan Roberts ar ran Archif Menywod Cymru

*There is an English summary at the end of the Welsh text*

Ganed Gwen ym mhentref Bancffosfelen, Pontyberem ar 4 Ionawr, 1922. Roedd ei thad yn lowr yng ngwaith glo Glynhegog, a bu farw yn 47 mlwydd oed oherwydd clefyd y llwch ("full silicosis"). Roedd ei mam yn dod o bentref Llansaint, ger Cydweli a buodd yn gweithio am gyfnod mewn siop ym Mancffosfelen, "siop Elis". Roedd ei thad yn fab i ffarm o Bancffosfelen.

Roedd Gwen yn un o bump o blant – pedair merch ac un bachgen. Hi oedd yr ail o'r plant. Buodd i'r ysgol ym Mhontyberem, a gadawodd yn 14 mlwydd oed. Mae'n sôn am fois ifainc oedd yn gorffen ysgol yn 14 mlwydd oed ac wedi'u cyffroi gan eu bod nhw'n dechrau'n y gwaith glo ar y dydd Llun, 'yn y crusher', (yn pigo glo ar y tip) ond bod y bois hynny i gyd wedi marw.

Ar ôl iddi adael ysgol aeth Gwen i weithio ar fferm gyfagos ym Mancffosfelen yn mynd â llaeth o gwmpas. Y tâl oedd swllt yr wythnos, ac er ei bod yn gweithio ar ddydd Sul, nid oedd yn cael tâl ychwanegol.

00.03.30: Dywedodd,  
"o'ch chi'n gorfod gweithio am ddim."

Roedd yn codi am chwech o'r gloch y bore, ac nid oedd yn gorffen yn y gwaith tan tua saith o'r gloch y nos. Yn ystod yr haf, adeg lladd gwair, weithiau y byddai'n gorffen yn hwyrach.

Yn ystod yr adeg pan roedd Gwen yn gadael yr ysgol roedd yn gobeithio bod yn 'dressmaker' ond nid oedd ei mam yn gallu fforddio talu am yr hyfforddiant. Roedd yn siomedig nad oedd yn gallu mynd i gael prentisiaeth gwnïo. Arferai mynd lan i dŷ Amy Stevens i wnïo a phatsho bob hyn a hyn, a byddai'n cael swllt am ei gwaith.

Aeth o'r ffarm ar ôl sbel achos teimlai eu bod yn cymryd mantais ohoni, ac aeth i Bibwrlwyd a chael gwaith yn glanhau a sgrwbio lloriau. Roedd y gwaith yn golygu ei bod ar ei phengliniau rhan fwy'r bore, ac nid oedd yn hoff o'r gwaith.

Ar ôl i'r rhyfel dorri allan agorodd y ffatri yn Felinfoel, Llanelli. Roedd Gwen ar ddeall bod yn rhaid i'r ffatri i gyflogi un gweithiwr anabl am bob cant a gyflogwyd. Roedd gwendid ar fraich Gwen. Roedd wedi ei thorri, ac yn ei gweld hi'n anodd i drafod pwysau.

Er mwyn cael y swydd aeth lawr i'r ffatri ac ymgeisio. Ni wyddai dim am Morris Motors cyn mynd lawr yno, ac nid oedd wedi gweld ffatri erioed yn ei bywyd cyn hynny., ond teimlai nad oedd dim byd yn waeth na chael eich pwsho drwy'r amser.

Roedd y cyflog yn Morris Motors bron i ddwbwl yr hyn a gafai cyn hynny. Ei chyflog yn dod adref o Morris Motors bob wythnos oedd naw punt.

Roedd Gwen tua deunaw neu bedair ar bymtheng mlwydd oed pan ddechreuodd gweithio yn Morris Motors. Roedd yn dal y bws am chwech o'r gloch y bore er mwyn dechrau'r gwaith am hanner awr wedi saith. Roedd y bws yn gadael am chwech o'r gloch y bore er mwyn mynd ag un dyn lan i'r gwaith glo yng Nghwm-mawr. Gorffennai'r gwaith am bump o'r gloch yn y nos, ac roedd Gwen yn dal bws i fynd adref am chwech o'r gloch. Cyrhaeddai adref am bum munud i saith. Byddai'n cael bath, bwyd a mynd i'r gwely. Dywedodd nad oedd bywyd ganddi mewn gwirionedd.

Roedd mam Gwen yn fam dda, ond roedd yn hen ffasiwn, ac roedd yn rhaid iddi fod yn y tŷ yn y nos. Roedd ei mam yn falch iawn ei bod hi wedi cael swydd yn Morris Motors, fel oedd Gwen ei hun, ac yn falch ei bod yn cael dwbwl yr arian yn y swydd newydd. Gyda'r arian roedd yn ennill talai am gael mynd ar y bws, ac yn rhoi'r gweddill iddi mam. Rhoddai ei mam rhyw bump swllt iddi yn arian poced (allan o gyflog o chwe phunt neu saith bunt.) Roedd mam Gwen yn widw yn 47 mlwydd oed a chweugain yn unig yr wythnos fyddai'n ei gael felly roedd arian Gwen yn gyfraniad pwysig iawn.

Pan aeth Gwen i chwilio am swydd yn Morris Motors, aeth i lawr i Felinfoel gyda dwy ferch arall. Fe gafodd y tair swydd yno, ond ni fu'r ddwy arall yno'n hir. Nid oeddynt yn hoffi'r gwaith (ac roedd y ddwy ohonynt wedi priodi.)

Miss Wishard (?) oedd enw'r fenyw a oedd yn cyflogi staff newydd. Roedd Gwen wedi gallu dechrau wythnos ar ôl ymgeisio am swydd. Pan ddechreuodd yno roedd rhyw ddau neu dri o ddiwrnodau o hyfforddiant, ac ar ôl hynny roeddech chi ar eich pen eich hun fel petai! Roedd yn cael ei thalu yn ôl faint o waith roedd wedi ei wneud. Gwaith Gwen oedd gwneud y 'radiators' ac oherwydd y gwendid yn ei braich roedd yn gweld y gwaith yn anodd. Nid oedd yn gallu eu tynnu allan ei hun, ac roedd yn gorfod aros i un o'r labrwrws i ddod i'w helpu. Roedd Gwen yn gwneud yr un gwaith â phawb arall er gwaethaf yr anhawsterau y byddai'n cael oherwydd ei braich. Gwneud gwresogwyr ar gyfer awyrennau a cheir oedd ei gwaith, ac roedd yn mwynhau. Mae'n gwerthfawrogi taw yno cafodd hi ei bywoliaeth.

Teimlai bod y ffatri'n le anferthol pan ddechreuodd hi yno. Roedd dros ddwy fil o bobl yn gweithio yno bryd hynny, gan gynnwys lot o ferched o Bonthenri.

Teithiai i'r gwaith ar fws a ddisgrifiai fel bws 'preifat', er bod y bws hwnnw yn mynd â'r glowr hwnnw i lofa New Dunant yn gyntaf cyn mynd ymlaen i Morris Motors. Roedd llond

bws o ferched yn teithio gyda'i gilydd, ac yn cael tipyn o sbort. Roedd un ferch yn dal y bws ar y sgwâr a'r gyrrwr, Jac y Sailor, yn aros iddi os na fyddai'n aros yno. Ond weithiai byddai'n ymuno â'r bws rhywle arall ar y ffordd, er enghraifft ar bwys Glynhebog. (A phawb i ddyfalu ble roedd hi wedi bod a beth roedd hi wedi bod yn neud!)

Er ei bod yn cael lot o sbri yn mynd ar y bws, teimlai bod dim bywyd ganddi'n gweithio'n y ffatri, achos roedd hi'n blino gymaint ar ôl dod adref.

Roedd y gwaith yn dechrau am hanner awr wedi saith yn y bore ac roedd deg munud o frêc am hanner awr wedi naw, i gael cwpaned o de. Roedden nhw'n cael hanner awr o frêc i ginio. Roedd y gwaith yn dibennu am hanner awr wedi pedwar, pump o'r gloch.

Er bod cantfn yn y gwaith roedd Gwen yn mynd â brechdanau i'r gwaith. Roedd 'urn' mawr yn dod â'r te o gwmpas llawr y ffatri, ac roedd yn costio ceiniog. Roedd y ffatri yn swnllyd iawn achos yr holl beiriannau trydanol yn 'tampo' drwy'r dydd.

Achos bod anabledd Gwen yn golygu bod labrwr yn gorfod ei helpu gyda'r gwaith roedd yn cael llai o arian na ferched eraill. Roeddynt yn categoreiddio ei swydd hi fel jobyn ysgafn ond ni allai Gwen ddadlau am y telerau neu ni fyddai ganddi swydd o gwbl.

Nid oedd y ddwy ferch arall a ddechreuodd yr un pryd â Gwen eisiau cario ymlaen i weithio yno oherwydd bod yn rhaid iddyn godi mor gynnar yn y bore. Nid oedd yr agwedd yma or' gwaith yn trwblu Gwen. Ond ni aeth y ddwy arall i weithio mewn ffatrioedd eraill.

Roedd llawer o bobl leol yn gweithio yno o bentrefi cyfagos yn y Cwm fel Tymbl, a Pontiets ac o dref Llanelli, ac o Dafen. Cymraeg oedd iaith y mwyafrif o fewn y ffatri.

Roedd 'charge hands' yno er mwyn rhoi hyfforddiant i weithwyr newydd. Roed rhain yn ddynion ac yn fenywod, ond menywod oedd yn gweithio yno fwyaf. Roedd lot o fechgyn yr ardal yn gweithio'n y gweithfydd glo, felly nid oeddynt yn cael eu gorfodi i weithio'n unman arall yn ystod blynyddoedd y rhyfel. Roedd y bechgyn nad oeddynt yn gweithio'n y gwaith glo yn gorfod mynd i'r fyddin.

Roedd lot o'r merched a weithiai yno wedi cael 'call up' ond nid dyma'r achos gyda Gwen. Roedd hi wedi dewis mynd yna i weithio

Roedd Gwen wedi cadw mewn cysylltiad gyda nifer o'r merched a weithiodd gyda hi yn Morris Motors fel Glenys Fawr tan yn gymharol ddiweddar, nes iddi fynd yn ffaeledig. Cafodd un ei chladdu'n ddiweddar, Ann McClean, a hefyd Peggy Dafen. Mae Gwen yn teimlo eu bod nhw i gyd wedi mynd bellach ar wahan i May o Cross Hands (VSW002) a oedd yn gweithio yno ar ddechrau'r rhyfel. Cyfarfu Gwen a May yn Morris Motors adeg y rhyfel.

Pan roedd hi'n gweithio yno roedd yn gweithio mewn un 'Section' arbennig, yn aros mewn un man yn y ffactri, ac felly roedd hi gyda'r un bobl drwy'r amser.

Roedd 'ffys' rhyfeddaf pan ddaeth yr Undeb yno gyntaf. Roedd yn talu 'grot' yr wythnos i'r Undeb, ac yn talu pob tair wythnos. Roedd rhaid gwneud hyn yn anhysbys felly byddai'n rhoi swllt a'i cherdyn er mwyn talu 'ar y slei'. Yn ddiweddarach roedd yn orfodol i dalu'r Undeb. Nid oedd Gwen yn gwybod beth fyddai wedi digwydd pe bai rhywun yn cael ei ddal

yn talu aelodaeth undeb, ond roedd hi'n gwbod 'oedd e ddim fod'. Roedd dwy ferch yn yr undeb yn ei 'Section' yn casglu'r arian. Undeb y Transport and General Workers ydoedd. Mae'r cerdiau dal gan Gwen.

00.28.55: Dywedodd,  
"O'ch chi ffaelau neud beth o'ch chi'n moyn â'ch bywyd".

Roedd Gwen yn dod ymlaen yn dda gyda phawb yno, fel y bechgyn ar y peiriannau. Roedd dwy chwaer yno o'r enw Annie a Glenda o Bonthenri (VSW003), yn cweryla drwy'r amser gyda'i gilydd. Dwy gas oedden nhw i'w gilydd! Cofiai Gwen gweld y ddwy wastad yn eistedd ar stepen y drws tu fas eu tŷ. Nid oedd y ddwy yn cweryla gyda merched eraill.

Pan roedd Gwen yn ddeg mlwydd oed mae'n cofio lojyr mewn tŷ cyfagos yn cael ei ladd yn y gwaith glo, a daethpwyd adref â'r corff mewn cart gyda poni yn ei dynnu. Mae'n cofio gweld ei 'sgidie hoelion' yng nghefn y cart. Un o Dregaron oedd e. Pan roedd Gwen yn 31 mlwydd oed aeth o gwmpas sir Geredigion a galwodd mewn i dafarn ger Aberystwyth lle wnaeth hi ddigwydd cyfarfod â thad y bachgen. Pan laddwyd y bachgen aethon nhw nôl â'r corff i Dregaron.

Mae Gwen yn sôn am yr holl ddamweiniau a fu yn y pentref – yn y gweithfeydd glo; bws yn mynd lawr ar lein y rheilffordd (a cholodd y conductor yr arian i gyd!); rhai'n boddi yn y Pwnd Mawr; tanad yn Glynhebog a rhai'n cael eu lladd.

Nid oedd tad Gwen eisiau i'w brawd i fynd i'r gwaith glo ac yn dweud wrtho 'fyddi di'n gwerthu matsys ar yr hewl cyn byddid di'n mynd.' Gan fod tad Gwen yn dioddef mor wael o glefyd y llwch, Gwen a'i chwaer byddai'n ei gario lawr o'r llofft. Byddai Dr Howells yn gofyn iddo bob dydd sut oedd e a byddai'n ateb, 'Yn y front line heddi 'to'. Nid oedd ganddo ddigon o anadl i siarad. Gwaith Glynhebog oedd y gwaith gwaethaf. Dauddeg chwech mlwydd oed oedd yr ifanca yno i gael ei gladdu. Gorffennodd y bachgen hwn yn y gwaith yn undeg pedwar mlwydd oed. Roedd yn marw o silicosis yn ddau ddeg chwech mlwydd oed.

Roedd tad Gwen yn chwerthin yn meddwl amdani'n gweithio'n Morris Motors. Dywedodd ei thad, 'Byddid di ddim yn hir 'na Byddi di wedi danto'. Roedd Gwen yn gallu safio rhywfaint o'i chyflog. Mae'n cofio merched yn y gwaith yn prynu pethau, ac yn talu 'clwb' ar gyfer dillad, esgidiau, ayyb. Nid oedd Gwen yn cydfynd â hyn. Roedd wastod catalogs gan y merched ond credai Gwen mai mater o'r ffordd oedd person wedi cael ei godi oedd hyn.

Ambell i ddiwrnod roedd popeth yn mynd go chwith yn y gwaith. Ond diwrnodau eraill roedd pob dim yn mynd yn iawn.

00.41.00: Dywedodd,  
'Oedd dim un dau ddiwrnod yr un peth.'

Roedd Gwen yn gweithio gydag Annie a Glenda. Merched di-briod oedd y mwyafrif o'r merched oedd yn gweithio yno.

Buodd Gwen yn gweithio yno am drideg a saith o flynyddoedd, ac yn ystod y cyfnod hwnna un job buodd hi'n ei wneud, ar wahan i unwaith. Roedd yn gweithio ar y gwresogwyr, ac

roedd charge hand o'r enw Wilf John o Gorseinon eisiau iddi fynd ar job fwy o faint. Gwrthododd Gwen. Roedd ganddi gerdyn anabledd felly nid oeddynt yn gallu ei gorfodi i symud. Roedd e'n pregethu wrthi ac atebodd hi fe nôl. Riportiodd e hi i'r swyddfa. Jest cyn cinio y diwrnod hwnnw aeth ei charge hand ati (Ivy Brown) a dweud, 'Gwen you're in the office after dinner'. Pan aeth i'r swyddfa roedd y bosys yno, y charge hand a phawb. Dangosodd Gwen ei cherdyn a dywedodd Ed y charge hand na wyddai bod ganddi gerdyn gwyrdd. A dyna ddiwedd ar y mater. Teimlai ei bod hi wedi gwneud y peth iawn yn amddiffyn ei hun. Roedd y charge hand hwnnw (Wilf John) yno am flynydde.

Dywedodd Gwen,

'O'dd e'n ca'l y gwaith mas o'r merched, achos oedd ei ofon e arnyn nhw'.

Er bod Gwen yn credu bod angen gwranddo ar y bos, dyw e ddim wastad yn iawn. A chafodd Wilf John ddim ei ffordd gyda Gwen! Roedd dau 'white coat' arall yno ac roedd y ddau yna'n grêt. Mae rhai od i gael a mae'n rhaid i chi weithio a dod i'w nabod nhw.

Nid yw Gwen yn cytuno â chweryla. Nid yw'n elwa neb. Roeddynt yn cael eu talu yn ôl faint oedden nhw wedi'u gwneud – "piece work", ond roedd hyn yn fwy anodd i Gwen. Roedd Gwen yn rhan o'r Undeb cyn i'r Undeb ennill statws swyddogol yn y gwaith. Roedd yn cydfynd â chael Undeb.

00.50.29: Dywedodd,

'Smoch chi fod o dan draed neb i weithio – ta beth yw job unrhyw berson smo chi fod o dan draed. .... Mae pawb i fod i weithio gyda'i gilydd. Sdim hen gwmpo mas i fod. Bydde pawb mwy hapus heb 'nny.'

Roedd y charge hands yn gwisgo dillad gwyn a'r gweithwyr cyffredin yn gwisgo overalls gwyrdd. Cawsant dwy y flwyddyn, ac roedd Gwen yn golchi eu rhai hi bob penwythnos. Roedd y gwaith yn gallu bod yn frwnt, weithiau oherwydd ei fod yn waith seimllyd. Roedd y gwresogwyr ceir o faint gwahanol, yn dibynnu ar y car, ac roedd y rhai ar gyfer awyrennau yn fawr iawn. Tynnai'r dynion nhw allan i'r merched a'u rhoi nhw ar stand, ac os nag oeddynt wedi cael eu rhoi yn ddiogel ar y stand, byddent yn cwmpo yn erbyn y merched. Mae gan Gwen lot o farciau ar ei choesau lle cwmpodd y blocs. 'All in a day's work'.

Dywedodd,

'Chi tamed gwell â conan. '

Nid yw Gwen yn cofio am unrhyw ddamweiniau mawr yn digwydd yno. Efallai byddai darn o ryw beiriant yn datgymalu a bwrw rhywun, a byddai hwnnw'n gorfod mynd i'r ysbyty ond nid yw Gwen yn ystyried y rhain yn ddamweiniau mawr.

Pan roedd Gwen yn cael cwt yn y gwaith roedd person cymorth cyntaf yn delio â fe.

Roeddynt naill a'i mynd lan a'r gweithiwr i'r lle cymorth cyntaf yn y gwaith, neu i'r ysbyty. Roedd y cyfleusterau ar gyfer cymorth cyntaf yn dda.

Roedd y gwaith yn strict iawn am gloco mewn a chloco mas. Roedd neb fod i wneud hyn ar ran rywun arall, er bod hyn yn digwydd.

Roedd y cyfleusterau yno'n dda, a'r tai bach, enghraifft, yn lan. Roedd menyw glanhau yno drw'r dydd. Roedd y ffatri yn swnllyd iawn achos bod peiriannau trydan yn bango drw'r

dydd. Mewn rhai manau yn y ffatri roedd gweithwyr yn gwisgo rhywbeth dros y clustiau. Mae Gwen yn ystyried bod y gwaith wedi effeithio ei chlyw. Mae'n drwm iawn ei chlyw. Mae Gwen wedi mwynhau ei hamser yn y ffatri, er bod pethau'n anodd yno weithiau. Ni chafodd ei themptio erioed i fynd i chwilio am waith rhywle arall achos roedd hi'n mwynhau'r cwmni yn y ffatri. Mae Gwen yn canmol y cyfeusterau oedd yno – tywelion papur, sebon ag ati, ond roedd hi'n oer iawn yno ac ambell aeaf roedd yn rhaid iddynt weithio yn eu cotiau mawr.

Roedd dau o'r charge hands yn caniatáu i'r merched i siarad a chael "sbri bach". Ond roedd un yn atgas (Wilf John). Roedd yn hala dwy neu dair o'r merched i lefain bob dydd.

01.01.25: Dywedodd,  
'Sneb fod i lefen yn eu gwaith'.

Roedd y charge hand hwnnw yn un a oedd yn mynd o gwmpas i ganu mewn eisteddfodau.

Roedd lot o jocan a thynnu coes yn mynd ymlaen yno. Roedd un gweithiwr cot wen o'r enw Jim, o ochrau Abertawe, ac os oedd e'n dod, a mynd at ei gariad, Enid, roedd pawb yn dechrau canu.

Roedd lot o 'gario 'mla'n' yn digwydd yno.

Roedd un bachgen ifanc o Benygroes, Denzil Parker. Roedd e'n gwneud ffys o bawb, ac yn hen 'swc' bach. Fe gafodd 'call up'. Gwnaethpwyd casgliad iddo'n y ffatri oherwydd ei fod yn gadael i fynd i'r armi, ac fe brynwyd wats iddo. Roedd yn llefain yn gadael, ond fe ddaeth e nôl i'r ffatri.

Mae Gwen yn cofio pâr yn mynd off gyda'i gilydd. Ethon nhw i Lundain i fyw. Roedd y ddau yn briod a theuluoedd ganddynt. Roedd yn beth mawr yr adeg honno.

01.06.17: Dywedodd,  
'Na'r unig beth am ffactris, mae'n tynnu diflastod fel yna'.

Priododd Gwen pan oedd yn 31 mlwydd oed a chariodd ymlaen i weithio. Roedd mam Gwen yn byw bryd hynny felly roedd ei mam yn gwneud bwyd. Pan ddeua adref byddai'n mynd i weithio yn yr ardd – roedd yn rhaid gwneud yr ardd.

Gweithiai bum diwrnod yr wythnos, a weithiau ar ddydd Sadwrn. Os oedden 'nhw'n' dweud ei bod yn gweithio dydd Sadwrn roedd rhaid gweithio. Roedd wedi arwyddo ei bod yn fodlon gweithio 'over-time'.

Roedd sustem shifts yno a buodd Gwen yn gweithio'r shift nos am dipyn, er nid oedd yn hoff o wneud hyn. Golygai hyn bod ei mam ar ei phen ei hun yn y tŷ.

Pan fyddai'n cael brêc roedd hi'n siarad am dipyn o bopeth, am 'ryw ddafad wedi torri'i choes'.

O ran gwyliau roeddynt yn cael pythefnos (wedi'i dalu) yn ystod yr haf. Roedd pawb off yr un pryd. Roedd hefyd yn cael Nadolig, Pasg a'r gwyliau banc yn rhydd. Os oedd eisiau

amser yn rhydd o'r gwaith am resymau personol roedd yn rhaid gofyn, a byddai'r rheolwyr yn eu caniatáu rhai weithiau. Wrth gwrs, nid oedd y gwaith yn talu am yr amser rhydd hwn.

Roedd Gwen a tua 11 merch arall yn mynd ar eu gwyliau gyda'i gilydd dramor. Y tro cyntaf, daeth Gwen adref o'r gwaith a dweud wrth ei mam ei bod hi'n mynd i Benidorm gyda'r gwaith. Gofynnodd ei mam ble oedd Benidorm. Pallodd adael i Gwen fynd a gorfodd hi ganslo a cholli ei blaendal. Ar ôl iddi chladdu ei mam aeth bob blwyddyn a chael amser da. I Benidorm aeth hi dramor gynta. Buodd hefyd yn Malta. Ar ôl dod nôl o'r gwyliau ai mewn i'r gwaith a byddai'n dechrau talu mewn ar gyfer gwyliau y flwyddyn nesaf. Y merched yn y gwaith oedd yn trefnu'r gwyliau. Roedd pawb yn cydweld ac yn paso ble roeddynt am fynd. Ethon nhw i Lundain am y penwythnos unwaith. Fe gostiodd 27 swllt ar y trê.

Roedd clwb cymdeithasol yn Morris Motors ond ni fuodd Gwen yno erioed. Nid oedd ganddi ddiddordeb ynddo. Ond roedd e wastad yn llawn. Roedd lot o bobl yn mynd yno i chwarae bingo. Nid yw Gwen yn cytuno â'r bingo. Nid oedd Gwen yn yfed nac yn ysmegu ond roedd yn mwynhau mynd ar y gwyliau.

Amser Nadolig byddai pawb yn yfed.

Dyweddodd,  
'Pawb a'i botel oedd hi'.

Roedd y merched yn yfed lot. Ac roedden nhw'n smoco hefyd. Roedd llawer ohonynt yn ysmegu wrth y peiriannau. Lice Gwen fynd nôl i'r ffatri i gael gweld sut mae pethau wedi newid. Mae'r gweithlu wedi mynd lawr o 2,000 i tua 200.

Amser Nadolig yn y ffatri roedd rhai mor feddw roedden nhw'n cael gwaith cerdded allan o'r giatiau. A byddai pawb wedi gwisgo lan yn dod i mewn i'r gwaith. Roedd rhai ohonynt yn mynd mewn i'r dre i wneud ffyliaid o'u hunain.

Gwelodd Gwen lawer o newidiadau yn ystod ei chyfnod yno. Credai eu bod wedi mynd yn fwy strict yno. Ond roedd mwy yn cael eu cyflogi yno drw'r amser felly mae Gwen yn credu roedd hyn yn angenrheidiol.

Dim ond dwy funud yn hwyr i'r gwaith oedd yn cael eu caniatáu. Os oedd rhywun yn dair munud yn hwyr byddant yn colli chwarter awr o gyflog. Roedd llawer o'r merched a weithiai yno yn aros am flynyddoedd. Roedd lot o'r merched wedi stico yno adeg y rhyfel achos roeddynt yn gwybod pe baent yn rhoi' gorau iddi byddai'n rhaid iddynt fynd rhywle arall, a hwyrach byddai'r ffatri arall yn bell o adref.

Roedd lot o bobol o'r un teuluoedd yn gweithio yno. Nid yw Gwen yn cofio unrhyw un yn cael y sac oddi yno erioed.

Roedd y ffatri yn cynnal 'Workers' Playtime' amser cinio a welodd Gwen llawr o sêr ffilmiau yn dod i mewn i'r ffatri, adeg y rhyfel. Falle byddai Edna Squires yno un wythnos. A rhywun arall yr wythnos wedyn. Byddent yn canu yng nghantîn y ffatri amser cinio.

Roedd Gwen yn talu at y 'Social Club' allan o'i chyflog, ond ni fuodd yno erioed. Ond nid oedd rhaid talu.

Pan roedd Gwen yn 59 mlwydd oed, ac wedi bod yno 37 o flynyddoedd cafodd drawiad ar y galon, a gorfodd hi orffen yno. Teimlodd y golled o orffen yn y gwaith – colli'r cwmni.

01.26.32: Dywedodd,  
'O'dd dim byd 'da chi, dim byd'.

Pan briododd Gwen cafodd gloc yn anrheg yn y gwaith. Cafodd wats am bum mlynedd ar hugain o wasanaeth.

01.30.30: Dywedodd am ei hamser yno,  
'Os chi'n mynd, mae'n rhaid i chi fynd a doddi'ch meddwl nawr bod chi'n mynd i enjoio, smo chi fod i fynd yn groes gra'n.

01.30.58: 'Ta le y'ch chi'n gweithio, ta beth y'ch chi'n neud chi'n cael eich ups and downs. Sdim bob dydd yn plein seilo'.

### *English summary*

**Morris Motors, Felinfoel, Llanelli (1940 or 1944 to c. 1981)**

**Interviewee: VSW014 Gwen Eira Evans**

**Date: 20.12.13**

**Interviewer: Susan Roberts on behalf of Women's Archive of Wales**

Gwen was born in Bancffosfelen 4/1/1922. Her father, a miner at Glynhebog, died aged 47 of "full silicosis". Her mother was from Llansaint and had worked in "siop Elis", Bancffosfelen.

Gwen had 3 sisters and a brother. She was the second child. She left school in Pontyberem when she was 14. She talks about 14 yr old boys who started at the coal mine who have all now died.

Gwen worked, delivering milk for a local farm for a shilling a week. She wasn't paid extra for working on Sundays.

00.03.30:  
".You had to work for nothing."

She rose at 6am and finished work at 7pm and sometimes later in the summer.



She had hoped to become a dressmaker but her mother couldn't afford the training so she used to go to Amy Stevens' house to patch and sew and would receive a shilling for her work.

Feeling that she was being exploited, Gwen left the farm for a while and went to Pibwrlwyd to clean and scrub floors which was not enjoyable work – being on her knees all morning.

After the war broke out the factory opened in Felinfoel. Gwen understood that there was an obligation to employ 1 disabled worker in every 100. She had a weak arm which she'd broken and had difficulty handling weights.

She applied in person at the factory. She knew nothing of Morris Motors until then – she'd never set eyes on a factory before but she felt there was nothing worse than being constantly pushed.

Her pay was double what she'd previously earned. She brought home £9 from Morris Motors each week.

She was 18/19 when she started at the factory. She caught the bus at 6am in order to start work at 7.30am. The bus left early enough to take a man to work at Cwm-mawr colliery. Work finished at 5pm and Gwen caught a bus at 6pm, arriving home at 5 to 7pm. She'd bathe, eat and go to bed. Gwen states that she didn't really have much of a life.

Gwen had a good mother but she was old fashioned and Gwen had to be at home at night. She was proud (as was Gwen) that her daughter had a job at Morris Motors and that she was earning double the money. Gwen paid her bus fare and gave the rest of her wages to her mother. Her mother gave her 5 shillings pocket money (out of £6/£7 pay) Gwen's mother was a widow at 47 and only received 10 shillings a week, so Gwen's wages were an important contribution.

When Gwen went to Felinfoel to apply for the job, she went with 2 other girls who were also given jobs, although they didn't stay long as they didn't like the work (and were both married.)

Miss Wishard (?) employed new staff. Gwen started a week after applying. She was given 2 or 3 days of training – then she was on her own. She was paid depending how much work she did. She made radiators for cars and aeroplanes, but because of her weak arm she found the work hard. She had to wait for one of the labourers to help her pull the radiators? out. She did the same work as everybody else and enjoyed it. She's glad that she made her living at the factory.

Gwen thought the factory was enormous when she started working. There were more than 2000 workers at the time, including many girls from Ponthenri.

She travelled to work on a "private" bus – even though the same bus took miners to New Dunant colliery. There was fun to be had on a busful of girls. One girl caught the bus on the square and the driver, Jac the Sailor would wait for her there. Sometimes she would meet the bus elsewhere, like Glynhebog (and everyone would try and guess what she'd been up to.)

She had plenty of fun on the bus, but Gwen felt she didn't have much of a life because she was always so tired when she arrived home.

Work began at 7.30am, and there was a 10 minute tea break at 9.30am. There was a ½ hour lunch break and work finished at 4.30pm – 5pm.

Although there was a canteen at work, Gwen took a packed lunch. A large tea urn would do the rounds of the factory floor – 1d for a cup of tea. The electric motors of the machines made it a noisy place.

Because her disability meant that Gwen needed help from a labourer, her wages were reduced. Her job was categorised as light work, but Gwen couldn't argue or she might have no job at all.

Many local people from neighbouring villages worked at the factory (Tumble, Pontiets, Llanelli, Dafen) Welsh was the language spoken by the majority.

Charge hands provided training for new workers. They were men and women, but mainly women. Many men and boys worked in the coal mines and weren't compelled to work elsewhere during the war. Boys who weren't miners were pressed into the armed forces.

Many girls had been “called-up” to work but Gwen had chosen to work there.

Until recently, Gwen kept in touch with many of her old workmates, like Glenys Fawr, but her health has deteriorated of late. Many have passed away – some recently like Ann McClean and Peggy Dafen. Gwen thinks they've all gone now apart from May from Cross Hands (VSW002) who Gwen met in Morris Motors during the war.

Gwen worked in the same section of the factory throughout and so worked with the same people all the time.

There was a great fuss when the union first came on the scene. She paid a groat/week to the union. (1shilling/3 weeks). Membership was forbidden so she paid “on the sly”. Girls from her section collected the dues for the Transport and General Workers. Gwen still has her cards.

00.28.55: Gwen said:  
“You couldn't do what you wanted with your life”.

Gwen got on with everyone, like the boys on the machines. There were 2 sisters from Ponthenri – Annie and Glenda (VSW003) – who were always arguing with each other. They were nasty to each other. Gwen remembers them sitting on the doorstep of their house. They never argued with other girls.

When Gwen was 10, she remembers a lodger in a nearby house was killed in the mine. His body was brought home in a cart pulled by a pony. She remembers seeing his hobnailed boots in the back of the cart. The boy was from Tregaron. When Gwen was 31 she went to Aberystwyth and in a nearby pub, met the boy's father.

Gwen talks of many accidents – in the coal mines; a bus crashing onto the railway line (and the conductor losing all the money!) ; people drowning in the big pond and those that were killed in an explosion at Glynhebog.

Gwen's father didn't want her brother to go underground. He used to say: "you'll be selling matches in the street before you go there." He suffered so badly from dust that Gwen and her sister had to carry him downstairs from his bedroom each day. Every day, Dr Howells would ask him how he was and he would answer: "In the front line today again." He barely had enough breath to talk. Glynhebog was the worst mine (for dust). One boy finished there when he was 14. He died of silicosis when he was 26.

Gwen's father would laugh at the thought of her working in Morris Motors. He told her that she wouldn't be able to stick it. Sometimes everything went wrong at work. Other times everything was fine.

00.41.00: Gwen said:  
'No two days were alike.'

Gwen worked with Annie and Glenda. Most women were single. Gwen worked there for 37 years doing the same job. She remembers an incident with a charge hand called Wilf John who wanted to move her to a larger job. Gwen refused and told him she had a disability card. He refused to take no for an answer until she eventually answered him back and was summoned to the office. The matter was dropped because she had a green card. Gwen thinks it was important for her to defend herself. Many of the other girls were afraid of Wilf John.

There were two other "white coats" who were great.

Gwen doesn't think quarrelling gets you anywhere.

Workers were paid on piece work. This was more difficult for Gwen.

Charge hands wore white coats and the ordinary workers wore green overalls. They were given 2 overalls a year and Gwen would wash hers every weekend. Sometimes the work was dirty/greasy. The car radiators were of varying sizes depending on the model of car. The aeroplane radiators were very large. They were pulled out by the men and placed on a stand. If they weren't fixed properly they could fall against the girls as they worked. Gwen has many marks on her legs where the blocks fell. "All in a day's work".

She said:  
"You're no better off for complaining."

Gwen doesn't remember any big accidents at work. Sometimes a part would detach itself from a machine and hit somebody. They'd be taken to hospital.

If Gwen suffered a cut at work there were first aid people there to help or she would be taken to hospital. The first aid facilities at work were good.

The company was very strict when it came to clocking on and off.

The toilets were clean. There was a full-time cleaner. There were paper towels and soap. However, it could get quite cold especially in winter. Sometimes workers would wear big coats on the factory floor.

The factory was very noisy because of the machinery banging away all day. In some parts of the factory, ear defenders had to be worn. Gwen thinks her hearing has suffered due to the noise at the factory. She's very hard of hearing now. Gwen enjoyed her time at the factory even though things could be difficult sometimes. She was never tempted to look for work elsewhere because she enjoyed the company of her workmates.

Two of the charge hands would allow the girls to chat and have a little fun. But one was hateful. (Wilf John) He'd make 2 or 3 girls cry every day.

01.01.25: She said:  
'Nobody should cry at work'.

There was plenty of leg-pulling and jokes at the factory. Every time a white coat worker from Swansea called Jim walked past his girlfriend, Enid, everybody would start to sing.

There was a lot of "carrying on".

A very young lad from Penygroes called Denzil Parker – he used to make a fuss of everyone – received his call-up papers. There was a whip round and a watch was bought for him. He was crying when he left, but he returned to the factory (after the war).

Gwen remembers a couple running away together. They went to London to live. They were both married and had families at home. It was a big thing in those days.

01.06.17:

Gwen married at 31 and continued working. Her mother still did all the cooking so Gwen worked in the garden after work.

She worked 5 days a week and some Saturdays when required.

There was a shift system at the factory and although she didn't like doing so, Gwen worked the night shift for a while. This left her mother alone in the house.

During break-time at the factory, Gwen chatted about anything and everything.

01.08.50: She said:  
'a sheep with a broken leg'.

Annual holidays consisted of 2 weeks (shutdown) during summer, Christmas, Easter and bank holidays. In order to get a day off for personal reasons at other times it was necessary to ask permission. Sometimes the managers would agree to time off (unpaid of course)

Gwen took holidays abroad with 11 other girls from work. When she announced for the first time that she was off to Benidorm, her mother's response was to ask where Benidorm was. She refused to allow Gwen to go and so she had to cancel and lost her deposit. After she

buried her mother, she went away every year and had a good time. Benidorm was her first foreign holiday. She also went to Malta. On her return from holiday every year, she returned to work and started paying in to save for next year's trip. The girls at work arranged everything once they'd all agreed where they would go. Once, they went to London for a weekend. It cost 27 shillings on the train.

There was a social club at Morris Motors, but Gwen never darkened its door. Although it was always busy, Gwen wasn't interested. She didn't drink or smoke and didn't agree with the concept of Bingo, which was often played there. She did, however, enjoy going on the holidays.

At Christmas, everyone would drink.

Gwen said:

"It was every man and his bottle."

The girls drank a lot. They also smoked. Many smoked at the machines (on the factory floor?) Gwen would quite like to visit the factory now to see how things have changed. The workforce has reduced from 2000 to 200.

At Christmas, some workers were so drunk they could hardly walk out through the gates. On the last day before the Christmas break, everyone would be dressed up and some would go on into town and make fools of themselves.

Gwen witnessed many changes during her 37 years at Morris Motors. She believes things became stricter but felt it necessary as more workers were constantly being employed to work there.

Workers weren't permitted to be more than 2 minutes late for work. Any worker clocking on 3 minutes late was docked a ¼ hour's pay. Many girls stayed there for years. Many had stuck it out during the war years because, had they left, they knew they would be compelled to work somewhere else – possibly far away from home.

Many members of the same family worked there. Gwen doesn't recall any workers being sacked.

During the war, the factory would have visits from "Workers' Playtime" at lunchtime, when Gwen saw film stars. One week would see a visit from Edna Squires, and somebody else the next week. The workers would all sing in the canteen at lunchtime.

Although it wasn't compulsory, Gwen paid a contribution for the Social Club directly from her wages. She never set foot inside.

Gwen was 59, (she'd been working there for 37 years) when she suffered a heart attack and had to leave work. It was a great loss to her – she missed the company of friends and co-workers.

01.26.32: Gwen said:

"You had nothing. Nothing."

Gwen was presented with a clock when she was married, and a watch after 25 years of service.

01.30.30: Gwen said of her time at Morris Motors:

“If you go, you’ve got to go with your mind set on enjoying – you mustn’t go against the grain.”

01.30.58: “Wherever you work, whatever you do, there are ups and downs. Not every day is plain sailing.”